



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Rhydypennau
Bow Street
Ceredigion
SY24 5AD**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Ysgol Rhydypennau

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Rhydypennau ym mhentref Bow Street, sydd ychydig filltiroedd i'r gogledd o dref Aberystwyth yng Ngheredigion. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 175 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 16 oed meithrin rhan-amser.

Mae ychydig dros 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sef 19%. Mae 46% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol wedi adnabod 25% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r canran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn glir, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, a safonau a lles disgyblion.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). O ganlyniad i ddull effeithiol athrawon y cyfnod sylfaen i fwydo iaith iddynt, mae'r disgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da yn fuan. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o degwch.

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang a chyfoethog o brofiadau dysgu i ddatblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r addysgu a'r asesu yn gadarn dda, yn arbennig yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen. Mae'r gweithdrefnau i olrhain cynnydd a monitro lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn ymateb yn dda i anghenion unigolion ac yn darparu gofal ac arweiniad effeithiol iddyn nhw a'u rhieni.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Datblygu medrau arwain rheolwyr ar bob lefel i'w galluogi i sicrhau safonau a darpariaeth o safon uchel
- A2 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu
- A3 Sicrhau cysondeb yn nodweddion gorau'r addysgu a'r asesu ar draws cyfnod allweddol 2

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Lleiafrif y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy'n cyfateb i'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da ac yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da yn fuan. Mae disgyblion bregus yn gwneud cynnydd cyffredinol dda, ac mae'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn medrau llafar a gwrando. O oed cynnar, maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd mewn sesiynau dysgu, ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith. Mae llawer yn esbonio'r hyn y maent yn ei wneud yn huawdl. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn esbonio'n glir rôl y milfeddyg ym milfeddygfa'r dosbarth. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gadarn ac aeddfed.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen da. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn darllen ystod briodol o wahanol destunau yn y Gymraeg yn gynyddol gywir. Maent yn adeiladu geiriau anghyfarwydd trwy ddefnyddio ystod effeithiol o strategaethau ffonig. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn frwdfrydig, gan nodi eu hoff gymeriadau a chynnig rhesymau synhwyrol dros yr hyn y maent yn ei hoffi. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn aeddfed yn y ddwy iaith, gan fwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac yn annibynnol i ddod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu i safon uchel ac at wahanol bwrpasau mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gyflwyno'u gwaith yn daclus. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau diddorol yn gynyddol gywir yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys portread o berson, neu daith banana i Gymru. Wrth drosglwyddo i gyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn datblygu llawysgrifen daclus ac mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ac aeddfed yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn gorffen ail hanner stori o'u dewis mewn gwrs iaith, neu gynnig esboniad ar sut mae planhigyn yn gwneud ei fwyd ei hun mewn gwyddoniaeth. Er hyn, nid yw lleiafrif o ddisgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu cystal ag y gallant.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd. Maent yn datrys problemau rhif yn gynyddol hyderus, gan adalw ffeithiau i gof yn gyflym. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth flaenorol yn lled hyderus mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys y ffordd y mae disgyblion ar frig y cyfnod sylfaen yn trafod nodweddion graff a graddfa yn gywir i gyfleu gwybodaeth am anifeiliaid ym Motswana. Mae gan y mwyafrif yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o werth lle, a gallant ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion hyn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth mewn amrywiol bynciau ar draws y cwricwlwm, fel graff llinell mewn gwyddoniaeth i ddangos sut mae mas kannwyll yn lleihau wrth iddi losgi. Er hyn, nid yw lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni tasgau mathemategol digon estynedig yn ddigon hyderus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus. Mae llawer ar frig y cyfnod yn defnyddio codau 'QR' yn llwyddiannus ac yn creu bas data i gofnodi eu gwaith ar lechen electronig, fel cyfradd glawio ym Motswana. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh da, gan ddethol y dull cyfrifiadurol mwyaf effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Maent yn cymhwyso'u medrau yn gynyddol hyderus mewn amrywiol gyd-destunau a phynciau, sy'n atgyfnerthu eu medrau yn y meysydd hynny. Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data yn helaeth i gywain gwybodaeth a chreu cyflwyniadau i arddangos eu dealltwriaeth am y Tuduriaid. Mae llawer yn gwneud defnydd effeithiol o safweoedd dysgu diogel i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth a gartref.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn eu poeni. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cyfrannu'n llawn wrth geisio sicrhau bod eu cyfoedion yn hapus a bod eu safbwyntiau a'u syniadau yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn hynod foesgar, yn hyderus, ac yn ymateb yn gadarnhaol wrth gyfarfod ag oedolion. Maent yn sgwrsio'n aeddfed, gan fynegi barn yn glir a hylaw.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson. Maent yn deall peryglon a all godi yn eu bywyd bob dydd a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen. Mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein, ac yn amlinellu peryglon all godi yn sgil defnydd anaddas o'r we. Mae'r dewiniaid digidol yn chwarae rôl allweddol i gyfoethogi hyn.

Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Maent yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw. Mae'r rhan fwyaf yn wybodus am nodweddion gwledydd sy'n datblygu'n economaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynaliadwyedd, a gallant egluro arwyddocâd y cynllun masnach deg yn hyderus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau yn aeddfed. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn cyfrannu at y cam nesaf yn eu gwaith pan gânt gyfle i wneud hynny. Mae bron pob un yn barod i ddysgu ar gychwyn gwersi. Maent yn gwranddo'n astud ar gyflwyniadau ac yn newid o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn symud o weithgaredd ar sgrin ryngweithiol i'r ardal chwarae rôl yn ddigymell. Mae llawer yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddisbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2, mae diffyg her yn golygu nad ydynt bob amser yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif fel aelodau o'r cyngor ysgol, pwyllgor eco, cyfeillion maes chwarae a dewiniaid digidol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i dderbyn cyfrifoldebau ychwanegol trwy gymryd rhan mewn etholiad blynyddol. Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus, gan roi rhesymau synhwyrol dros gymryd penderfyniadau sy'n effeithio ar eraill o fewn

cymuned yr ysgol. Er enghraifft, aelodau'r pwyllgor eco fu'n cynllunio'r ardal anturus, a nhw sy'n cymryd cyfrifoldeb parhaus am ddatblygu'r ardd. Maent hefyd yn monitro'r traffig y tu allan i'r ysgol i ymateb i bryder eu cyfoedion. Er hyn, cyfyng yw eu rôl wrth fonitro agweddau ar ddysgu ac addysgu.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae nodweddion gorau'r addysgu, sy'n amlwg ym mhob dosbarth yn y cyfnod sylfaen, a mwyafrif y dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2, yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel yr athrawon. Yn y dosbarthiadau hyn, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu i ennyn diddordeb y disgyblion ac i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrywiol gyd-destunau. Mae bron pob oedolyn yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus, ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i fwydo geirfa a gwella medrau llafar y disgyblion yn rheolaidd. Mae llawer yn defnyddio amrywiol dechnegau holi i ymestyn a datblygu ymhellach ymatebion disgyblion ac i ddarganfod yr hyn maent yn ei ddeall. Mae hyn yn arbennig o effeithiol ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, lle mae holi lefel uchel yr athrawes yn sicrhau bod disgyblion yn gwerthuso'u gwaith eu hunain yn effeithiol ac yn cadarnhau eu bod yn deall y gwaith. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr athrawon, y staff cynorthwyol a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae hyn yn annog parch, cwrteisi ac ymddiriedaeth.

Mae'r holl athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno gofynion statudol y cwricwlwm ac egwyddorion y cyfnod sylfaen, ac i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh y disgyblion trwy gyfrwng themâu diddorol. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn effeithiol ym mhob agwedd o'u gwaith. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau â'r Llyfrgell Genedlaethol a thraeth lleol, ac yn annog y disgyblion i astudio gwaith awduron neu artistiaid yn eu milltir sgwâr. Mae'r cynlluniau hyn yn ymgorffori gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn grefftus. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio'n greadigol ac yn darparu profiadau dysgu a gweithgareddau eang a chyfoethog. O ganlyniad, mae bron pob un yn ymroi yn weithgar i'w tasgau ac yn mwynhau dysgu. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae staff yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r ystod gyfoethog o adnoddau yn yr awyr agored i gyfoethogi eu dysgu ac i ddatblygu eu medrau corfforol. Mae hyn yn cynnwys chwarae ar y cyfarpar anturus a gweithio'n gynhyrchiol yn yr ardd flodau neu lysiau. Mae'r staff yn ymestyn creadigrwydd disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen, er enghraifft, yn gwneud lluniau lliwgar ar ffoil arian ac yn chwarae rôl yn ddychmygus yn y tŷ bach twt a'r ogof glonc. Mae enghraifft dda ar frig yr ysgol yn cynnwys ysgrifennu sgrïptiau yn seiliedig ar stori'r Dyn Haearn i'w pherfformio i'w cyfoedion.

Mae asesiadau'r athrawon yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Maent fel arfer yn gymorth defnyddiol i lywio'r camau nesaf ar gyfer y disgyblion, er nad ydynt bob tro yn arwain at dasgau sy'n ddigon heriol ar gyfer disgyblion uwch eu gallu. Mae adborth llafar yr athrawon yn gymorth i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, anghyson yw effaith adborth ysgrifenedig athrawon cyfnod allweddol 2.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda, maent yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd ac ymwelwyr, ac maent yn ymroi yn gydwytbodol i'w gweithgareddau. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymfalchïo yn eu cymuned a'r cyfleoedd amrywiol y maent yn eu derbyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd a monitro lles ei disgyblion ac mae arweinwyr yn eu mireinio'n gyson er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon a hygyrch. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer y disgyblion ac i ddarparu ymyraethau priodol ar gyfer y rheini sydd angen cymorth ychwanegol. Mae gan y disgyblion dargedau penodol ac unigol. Maent yn eu llunio mewn trafodaeth gyda'r athrawon, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon uchelgeisiol a chyraeddadwy. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol cynhwysfawr, sydd wedi ei lunio mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae'r athrawon dosbarth yn ystyried cynnwys y rhain yn ofalus wrth gynllunio'u gwersi. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn gydwytbodol ac yn addasu neu ddileu'r cymorth lle'n briodol. Mae'r ddarpariaeth hon yn gryfder yn yr ysgol.

Er mwyn cyfoethogi ei darpariaeth, mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf a defnyddiol gyda'r rhieni, y gymuned, ysgolion eraill ac asiantaethau allanol fel y therapydd iaith a'r seicolegydd addysg, ymysg eraill. Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau ac ati. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth rhieni am wahanol ffyrdd y gallant gefnogi eu plant gartref, fel cynnal hyfforddiant iddynt ar raglenni iaith ac ati. Mae'r gymdeithas rhieni yn codi symiau sylweddol yn flynyddol i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau fel cyfarpar technolegol ac adnoddau ar gyfer yr ardal allanol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trefnir ystod o gyfleoedd i ddatblygu ffitrwydd y disgyblion, fel clybiau hoci, seiclo a chriced. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn deall effaith eu dewisiadau ar eu hiechyd. Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwes cymunedol yn addysgu disgyblion am beryglon camddefnyddio sylweddau ac ysmegu, ynghyd â pheryglon defnyddio'r we. O ganlyniad, mae bron pob un yn siarad yn hyderus am bwysigrwydd gofalu am eu corff, a chadw'n ddiogel ar-lein.

Mae gwasanaethau boreol ac ymweliadau gan arweinwyr crefyddol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol ac mae'r cyfleoedd cyson iddynt ymweld â'r gymuned leol yn cyfoethogi hyn ymhellach. Caiff hyn ei dystio yn y ffordd mae'r disgyblion yn siarad â brwdfrydedd am y cyfleoedd maent yn eu cael i gystadlu mewn cystadlaethau celf yn lleol ac i berfformio mewn cyngherddau adeg y Nadolig a'r gwasanaeth diolchgarwch. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i feithrin medrau diwylliannol disgyblion trwy eu haddysgu am ddiwylliant Cymru a'i gymharu â diwylliant pobl mewn gwledydd fel Lesotho a Botswana.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau eraill wrth weithredu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Ers ei benodiad, mae'r pennaeth wedi mireinio'r gweithdrefnau rheolaethol a oedd eisoes yn bodoli yn yr ysgol i adlewyrchu'r gofynion cyfredol. Mae ei weledigaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn glir. Mae amcanion strategol yr ysgol yn gadarn ac uchelgeisiol, a chanddynt ffocws clir a phenodol ar wella'r ddarpariaeth, a safonau a lles disgyblion.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu cyfredol yn drylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol a dibynadwy sy'n deillio o weithgareddau a gynhelir ar lawr y dosbarth ac arferion parhaus yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau cyson hyn yn cyfrannu at flaenoriaethau priodol i wella'r ddarpariaeth a herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r pennaeth yn monitro'r gwelliannau yn ofalus ac yn ymateb yn fanwl i flaenoriaethau'r cynllun datblygu blaenorol yn gyson. Mae hyn yn sicrhau bod y ffocws yn gyson ar welliannau dros amser. Er mwyn i'r weithdrefn wreiddio, mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau newydd i'r staff ac uwch rheolwyr. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod yn well y meysydd sydd angen eu datblygu, a chynllunio cymorth i'w gwella yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw medrau arwain rheolwyr ar bob lefel wedi datblygu'n llawn hyd yma ac nid yw effaith y gweithdrefnau ar agweddau o'r addysgu, safonau disgyblion nac atebolwydd staff wedi cael amser i amlygu ei hun.

Mae gan y pennaeth weithdrefnau pwrpasol sy'n seiliedig ar dargedau'r cynllun gwella i gefnogi a herio staff. Nodir meincnodau a llinyn amser synhwyrol i fonitro a mesur llwyddiannau'r gweithgareddau hyn. O ganlyniad, mae'r athrawon yn ymateb i'w cyfrifoldebau penodol ac yn cyfrannu'n fwiadus tuag at wella safonau a medrau'r disgyblion. Gwelir hyn yn y defnydd craff a wneir o ganlyniadau asesiadau i fesur llwyddiant ymyraethau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer datblygu staff yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithdrefnau rheoli perfformiad cyfredol. Maent yn cyfoethogi datblygiad proffesiynol yr holl staff yn llwyddiannus. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau ac arbenigedd unigolion. Er enghraifft, rhoddwyd cyfle i unigolion gydweithio â staff ysgolion eraill ar gynlluniau penodol fel arferion TGCh, a rhwydwaith i ddatblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen. Trwy dderbyn hyfforddiant a chyfarwyddo â'u cyfrifoldebau newydd, mae staff yn dechrau rhannu arferion da yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae hyn eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh y disgyblion.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am waith a pherfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn mewnbwn ymarferol gan y pennaeth am weithdrefnau monitro, hunanarfarnu a chynllunio strategol. Trwy gydweithio'n effeithiol â'r uwch reolwyr, craffu ar lyfrau a chynnal teithiau o gwmpas yr ysgol, mae ganddynt bellach ddealltwriaeth drylwyr o safonau'r dysgu a'r addysgu ac unrhyw anghysondebau sy'n bodoli o fewn adrannau penodol. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn arweinwyr i gyfrif a gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol, gan gynnwys y staff

cynorthwyol, sy'n rhan annatod o'r tîm ac sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau disgyblion, a sicrhau eu lles a'u medrau cymdeithasol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r staff, yr adeilad a thir yr ysgol, gan sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau penodol i ddatblygu'r ddarpariaeth, gwella safonau a chyfoethogi'r cwricwlwm yn cael eu gwario'n effeithlon. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r defnydd bwriadus a wneir o'r arian wrth gefn i gyflogi staff ychwanegol i leihau maint dosbarthiadau ac i dargedu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Gwneir defnydd synhwyrol o'r grant datblygiad disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, mae holl wariant yr ysgol yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwysu gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwysu cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2017